# Y Pwyllgor Cyfle Cyfartal

## EOC(3)-16-08 (p.1) : 4 Rhagfyr 2008

### Addasiadau i Dai

### Yr Adolygiad o Addasiadau Tai gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - Cymru

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn ym mis Mawrth 2005 ac roedd yn cynnwys 37 o argymhellion. Derbyniodd y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio bob un o'r argymhellion hyn, ac roedd y Pwyllgor Pwnc yn eu cefnogi'n llawn hefyd. Ceir enghreifftiau o'r argymhellion pwysicaf isod.

Un argymhelliad oedd y dylai addasiadau gwerth hyd at £3,000 a ddarperir drwy Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl gael eu symleiddio a'u blaenoriaethu er mwyn gwneud y broses yn llai biwrocrataidd.

Roedd nifer o awdurdodau lleol ledled Cymru eisoes yn gwneud hyn ar y pryd, ac mae'r arfer wedi dod yn fwyfwy cyffredin ers hynny. Roedd nifer o awdurdodau lleol hefyd wedi symleiddio'r broses o ymgymryd â mân addasiadau yn stoc dai yr awdurdod ei hun. Roedd yr addasiadau hynny'n cael eu gwneud gan y cyngor heb fod gofyn i'r tenantiaid ddilyn trywydd Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

Un argymhelliad arall oedd y dylai awdurdodau gadw mewn cof yr angen i neilltuo digon o adnoddau i'r rhaglen Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl o'u Cyllid Cyfalaf Cyffredinol eu hunain, a sicrhau bod digon o gyllid wedi ei neilltuo i dalu am geisiadau o dan y Grantiau hyn gydol y flwyddyn ariannol.

Dyma farn a gymeradwyodd Llywodraeth y Cynulliad, ac y mae wedi ei hailadrodd droeon. Er bod yr adnoddau Cyllid Cyfalaf Cyffredinol yn gyllid sydd heb ei neilltuo, mae'n hanfodol bod awdurdodau yn sicrhau bod digon o adnoddau ar gael i fodloni eu rhwymedigaethau statudol a'u blaenoriaethau lleol i gefnogi Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.

Roedd yr adroddiad hefyd yn argymell cyflwyno Dangosydd Perfformiad statudol yn gosod targedau ar gyfer prosesu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, a chost addasiadau. Cyflwynwyd y Dangosydd ar gyfer blwyddyn ariannol 2006-07. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer y Dangosydd (ar gyfer 2007-08) yn dangos y cafwyd gostyngiad o 16.75% yn nifer cyfartalog y dyddiau y mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn eu cymryd i gyflawni ceisiadau Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Er hynny, mae'r amseroedd aros mewn nifer fach o awdurdodau wedi cynyddu.

Yn achos tenantiaid Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, roedd yr adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion yn ymwneud â Grantiau Addasiadau Ffisegol. I raddau helaeth, aethpwyd i'r afael â'r rhain drwy gyfrwng yr 'Enillion Cyflym' oedd yn deillio o Adroddiad Essex. Mae'r rhain wedi cyflymu'r broses o gyflawni'r Grantiau hyn ac wedi sicrhau bod y broses honno yn llai biwrocrataidd a beichus.*

Roedd yr adolygiad o'r Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl hefyd yn argymell bod awdurdodau lleol yn paratoi i gadw cofrestrau o dai a addaswyd, fel bod ganddynt wybodaeth ddiweddar ynghylch tai a addaswyd yn eu stoc eu hunain o dai. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi annog awdurdodau lleol i ystyried hyn ac mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol bellach yn cadw cofnodion o'r fath.

O ran rôl Therapyddion Galwedigaethol mewn addasiadau, roedd yr adroddiad yn argymell bod awdurdodau lleol yn ystyried defnyddio staff nad ydynt wedi eu cymhwyso fel Therapyddion Galwedigaethol wrth asesu mân addasiadau. Cefnogodd Llywodraeth y Cynulliad yr argymhelliad hwn, ac mae nifer o awdurdodau lleol bellach yn dilyn y trywydd hwn er mwyn gostwng amseroedd aros ar gyfer mân addasiadau.

Wedi i'r Gweinidog gymeradwyo argymhellion yr adroddiad, ysgrifennodd Llywodraeth Cynulliad Cymru at bob awdurdod lleol ym mis Gorffennaf 2005. Cynhaliwyd seminarau yn y De a'r Gogledd i awdurdodau lleol yn ystod tymor yr hydref y flwyddyn honno er mwyn trafod yr adolygiad a lledaenu arferion da. Daeth llawer i'r seminarau hyn ac roeddent yn llwyddiant mawr.

### Adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio - Tai ar gyfer Pobl Hy^n

Cyhoeddwyd yr adroddiad hwn yn mis Gorffennaf 2004 ac mae'n cynnwys sawl argymhelliad yn ymwneud ag addasiadau. Aethpwyd i'r afael ag un o'r prif argymhellion drwy sefydlu'r adolygiad annibynnol uchod (a gynhaliwyd gan uwch ymarferydd yng Nghyngor Dinas a Sir Abertawe). Roedd y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio wedi edrych ar faterion megis adnoddau, profion modd, addasiadau ar draws deiliadaethau, cynnwys derbynnwyr a gofalwyr yn y broses o gynllunio a gwerthuso gwasanaethau, a rôl Therapyddion Galwedigaethol yn y ddarpariaeth.

#### Adroddiad Meincnodi CLlLC (Syniad)

Cyhoeddodd Syniad, sef adain ymchwil CLlLC bryd hynny, adroddiad meincnodi ym mis Rhagfyr 2001 yn ymdrin â Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl. Roedd yr adroddiad yn cynnwys canllawiau Arferion Da oedd yn ymwneud ag amryw o agweddau ar Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, ac roedd yn tynnu sylw at yr angen i sefydlu Dangosyddion Perfformiad wrth weinyddu a darparu'r Grantiau hyn.

Roedd casgliadau'r adroddiad yn cynnwys argymhellion oedd yn ymdrin â rôl Therapyddion Galwedigaethol, amseroedd aros, un pwynt cyswllt ar gyfer y rheini sy'n gwneud cais am grantiau, blaenoriaethu mân addasiadau a rhestrau o gontractwyr cymeradwy ar gyfer gwaith addasu.

Roedd argymhellion yr adroddiad yn cyd-fynd â'r adroddiad diweddarach annibynnol a amlinellwyd uchod ar addasiadau (gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl), ac adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio.  Y bwriad yw diweddaru'r adroddiad Meincnodi maes o law er mwyn adlewyrchu'r astudiaethau diweddarach a'r ffaith bod y Dangosyddion Perfformiad wedi'u cyflwyno.  Rydym yn disgwyl adroddiad terfynol gan CLlLC i'r perwyl hwn.

### Y Grwp Gorchwyl a Gorffen ar Dai Fforddiadwy – Adroddiad i'r Dirprwy Weinidog dros Dai (Adroddiad Essex) – Enillion Cyflym

Roedd adroddiad Essex yn argymell na ddylai fod angen i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig bellach gael cymeradwyaeth unigol ar gyfer Grantiau Addasiadau Ffisegol gwerth mwy na £3,000 a mabwysiadwyd dull gweithredu newydd er mwyn darparu'r grantiau hyn.  Roedd hyn yn adlewyrchu, i raddau helaeth, argymhellion yr adroddiad a gyhoeddwyd yn 2005 ar y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl, fel y maent yn berthnasol i Grantiau Addasiadau Ffisegol.  Roedd y cynigion diwygiedig gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys neilltuo adnoddau i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig unigol ar sail anghenion a ddiffiniwyd.  Yn y flwyddyn gyntaf, bydd swm y dyraniad i bob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn cael ei bennu gan batrwm y gwariant dros y tair blynedd diwethaf.  Mae hyn yn golygu bod y broses yn llai biwrocrataidd ac mae'n gosod y cyfrifoldeb am addasiadau yn fwy cadarn ar ysgwyddau'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, fel y landlord cyfrifol (gweler uchod*)

### Gwasanaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru

· Mae gwasanaethau Gofal a Thrwsio yn cynorthwyo pobl hy^n a phobl anabl i gynnal gwelliannau i'w tai. Mae hyn yn aml yn golygu y gall cleientiaid osgoi mynd i mewn i ofal dan oruchwyliaeth, ac yn eu galluogi i aros yn eu cartrefi eu hunain.

·Y rhiant gorff yw Gofal a Thrwsio Cymru, a cheir 22 o asiantaethau Gofal a Thrwsio yng Nghymru (sy'n golygu y ceir gwasanaeth ym mhob cwr o'r wlad). Mae'r gwasanaeth yn un cynhwysfawr ac mae'n cynnwys cymorth ymarferol â phroses grantiau adnewyddu'r cartref, rheoli gwaith adeiladu, cyngor am gontractwyr cymeradwy a chyngor am ofal cymdeithasol.  Mae gan y rhan fwyaf o'r asiantaethau fentrau 'Diogelwch yn y Cartref' a chynlluniau tasgmyn sy'n ymgymryd â gwaith trwsio bach ond pwysig.

·Mae asiantaethau Gofal a Thrwsio yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, mudiadau gwirfoddol eraill a chyrff yn y sector iechyd.

Mae £4.5 miliwn wedi ei ddarparu ar gyfer blwyddyn ariannol 2008-09 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru fel cyfraniad at y costau rhedeg craidd. Mae hyn yn adlewyrchu'r swyddogaeth gymdeithasol werthfawr sydd gan asiantaethau Gofal a Thrwsio.

### Y Rhaglen Addasiadau Brys (RRAP)

·Mae'r rhaglen hon yn sicrhau ymateb sydyn i anghenion penodol trwy ddarparu addasiadau fel rampiau, canllawiau ac ati er mwyn galluogi pobl i ddychwelyd i'w cartrefi eu hunain ar ôl cael eu rhyddhau o'r ysbyty. Mae hyn yn osgoi gorfod eu haildderbyn i'r ysbyty neu eu derbyn i ofal preswyl hirdymor.

·Caiff y gwasanaeth ei weinyddu gan Gofal a Thrwsio Cymru a'i darparu gan yr asiantaethau Gofal a Thrwsio ar y cyd â sefydliadau partner.  Daw'r atgyfeiriadau o awdurdodau lleol a sefydliadau yn y sector iechyd.  Cychwynnodd y rhaglen newydd hon ar 1 Gorffennaf 2002.

Ar hyn o bryd mae'r rhaglen yn derbyn £2.1 miliwn bob blwyddyn.

### Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Cymorth Tai) (Cymru a Lloegr) 2002 - Arferion Da

Yn sgil y Gorchymyn uchod, a ddaeth i rym ym mis Gorffennaf 2002, mae gan awdurdodau lleol fwy o hyblygrwydd o ran y ffyrdd y gallant estyn cymorth i berchnogion cartrefi, yn ychwanegol at system statudol y Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.  Mae'r canlynol yn enghreifftiau o arferion da o ran addasu a thrwsio y mae rhai awdurdodau lleol wedi eu mabwysiadu gan ddefnyddio'r pwerau hyn:

·Grantiau Lifftiau Grisiau - grant sydyn sydd wedi'i dargedu'n benodol at y rheini sy'n aros am lifft grisiau.

·Grant sydyn ar gyfer cawodydd sy'n cael eu gosod uwchben y bath.

·Grantiau Mân Weithiau - ar gael i berchen-feddiannwyr a thenantiaid sydd yn mandiau A-D y dreth gyngor.

·Grant Ailadeiladu - pan fo ailadeiladu yn fwy cost effeithiol nag adnewyddu.

·Y Grant Anabledd a Rhagor - i'w ddefnyddio i roi blaenoriaeth i waith brys er mwyn hwyluso rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn gynnar.

·Cymorth â Mân Waith Trwsio - rhoddir yn ôl disgresiwn i helpu aelwydydd ar incwm isel i dalu am waith angenrheidiol i drwsio, gwella ac addasu.

·Cymorth i Waith Trwsio sy'n Flaenoriaeth - ar gael i berchen-feddiannwyr hyd at uchafswm o £10,000.

·Cymorth 'Blaenoriaeth' ar gyfer Mân Addasiadau - ar gael i berchen-feddiannwyr anabl hyd at uchafswm o £1,500.

·Grant Adleoli i Gartref a Addaswyd - ar gael i'r rheini sy'n gofyn am help i adleoli i eiddo sydd wedi ei addasu'n fwy addas ar eu cyfer.

·Y Cynllun Osgoi Derbyniadau i'r Ysbyty (HAPS) - cymorth i bobl aros yn eu cartrefi eu hunain, a fyddai fel arall yn gorfod cael eu derbyn

i'r ysbyty ar gyfer gofal hirdymor.

·Y Cynllun i Blant ag Asthma - Grant Cartrefi Iach, dim prawf modd, dim amodau grant.

·Cymorth â Mân Waith (Blaenoriaeth) - addasiadau i hwyluso rhyddhau o'r ysbyty, creu cartref clyd ar gyfer y rhai sydd â salwch terfynol, diwallu anghenion hylendid eithriadol a darparu systemau larwm.

Cymorth â Chostau Llafur a Deunyddiau - hyd at £500 y flwyddyn ar gyfer cymorth, drwy gyfrwng Gofal a Thrwsio, i hwyluso rhyddhau o'r ysbyty.

Cymorth 'Blaenoriaeth' ar gyfer Mân Addasiadau - hyd at £1,500 ar gyfer mân addasiadau i alluogi person anabl i aros yn ddiogel yn ei g/chartref ei hun.

Grant Trwsio Brys - £200 heb brawf modd + TAW + mwyafswm ffi o 10%

### Y Diweddaraf ar yr Ymchwil i'r Strategaeth Tai i Bobl Hy^n

Yn ddiweddar, comisiynwyd Strategaeth Tai i Bobl Hy^n.  Caiff ei arwain gan Wendy Bourton OBE, Prif Weithredwr Gofal a Thrwsio Cymru, ar secondiad rhan-amser i Gyfarwyddiaeth Dai Llywodraeth Cynulliad Cymru.  Mae'r cylch gorchwyl yn eang ac yn heriol, gan gynnwys gwaith ar anableddau sy'n gysylltiedig ag oedran, ac addasiadau.  Bydd y gwaith hwn yn dod i ben ar 31 Gorffennaf 2009.